ARHOLIADAU 360°

Golwg fanylach ar **asesu haenog**

Caiff gwahanol TGAU eu hasesu mewn gwahanol ffyrdd. Mewn TGAU nad ydyn nhw'n haenog, dim ond un papur arholiad sydd ar gyfer pob myfyriwr, waeth pa radd mae'n anelu tuag ato.

Ond, yn achos TGAU haenog, mae myfyrwyr yn sefyll gwahanol bapurau arholiad yn ddibynnol ar y graddau maen nhw'n gobeithio eu cael.

Yma yng Nghymru, ein barn ni ynghylch TGAU yw na ddylen nhw gynnwys asesu haenog os nad oes angen sicrhau bod yr arholiadau'n hygyrch ac yn bosibl i'r myfyrwyr sy'n eu heistedd nhw.

Pa bynciau sydd â chymwysterau haenog a pham?

Mewn sawl pwnc, fel Cymraeg iaith, Saesneg iaith neu Ddaearyddiaeth, gellir asesu'r cynnwys gan ddefnyddio, yn bennaf, gwestiynau agored sy'n hygyrch i'r holl gohort o fyfyrwyr. Mae'r marciau mae myfyriwr yn eu derbyn yn dibynnu ar ansawdd ei ateb felly nid yw papurau arholiad y pynciau hyn yn haenog.

Caiff haenu ei ddefnyddio mewn pynciau ble caiff y cynnwys ei asesu drwy gyfres o gwestiynau sydd ar lefelau gwahanol o anhawster, er enghraifft mathemateg a gwyddoniaeth.
Er y byddai'n bosibl gosod papur sy'n cynnwys digon o gwestiynau o amrywiol anhawster i asesu'r ystod gallu TGAU llawn, byddai hyn yn arwain at bapurau arholiad llawer hirach a phrofiadau llai positif ar gyfer myfyrwyr.

Yn ymarferol, mae haenu'n golygu mai dim ond is-set o raddau sy'n cael eu targedu gan bob papur arholiad. Mae'r haen mae myfyriwr yn rhoi cynnig arni'n dibynnu ar y radd mae'n gobeithio ei chael.
Mae dwy haen i'r rhan fwyaf o gymwysterau haenog. Mae'r tabl isod yn dangos y graddau sydd ar gael yn y ddwy haen. Mae graddau C a D ar gael yn yr haen uchaf a'r haen isaf.

Uwch	A*	A	B	C	D			
Canolradd				C	D	E	F	G

parhad...

Mae tair haen i TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd:
Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Dyma'r graddau sydd ar gael ym mhob haen.

Uwch	A*	A	B	C				
Canolradd			B	C	D	E		
Sylfaen					D	E	F	G

Oherwydd mai targedu is-set o'r graddau mae papurau arholiad haenog, mae'n bwysig bod yn ofalus wrth drafod a chymharu ffiniau graddau.

Er enghraifft, yn haen uchaf TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd, mae tua chwarter o'r cwestiynau wedi eu targedu at bob un o'r graddau A*, A, B a C. Dyma pam fod ffiniau gradd ar gyfer gradd C ar y papurau haen uchaf yn is nag ar gyfer papurau'r haenau sylfaen neu ganolradd.

Am ragor o wybodaeth darllenwch ein herthygl ar osod ffiniau graddau.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym